

TAG UG/SAFON UWCH

# ASTUDIAETHAU CREFYDDOL: CYNLLUN DARLLEN MOESEG

Uned 2: Crefydd a Moeseg Blwyddyn Gyntaf / UG

## Uned 2: Crefydd a Moeseg Blwyddyn Gyntaf / UG

Prif nod y Cynllun Dysgu yw rhoi cefnogaeth i gyflwyno'r fanyleb Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch Gyfrannol CBAC newydd. Ni fwriedir iddo fod yn gyfeirbwynt cynhwysfawr, ond yn hytrach bwriedir iddo roi cymorth i athrawon proffesiynol ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r myfyrwyr yn eu canolfannau penodol.

Yn ogystal, ni ddylid defnyddio'r ddogfen hon yn lle'r fanyleb, ond rhaid ei ddefnyddio i ategu cyflwyno'r fanyleb. Mae'r cynllun yn cynnig cymorth i athrawon o ran gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddogfen a chysylltau at adnoddau digidol (ein deunyddiau digidol ni sydd ar gael am ddim a hefyd deunyddiau digidol o ffynonellau allanol), gwerslyfrau ac adnoddau eraill i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol, cyfredol ac atyniadol.

Bwriad y cynllun gwaith hwn yw i ddysgwyr gymryd rhan mewn rhai tasgau dysgu annibynnol cyn dod i'r wers. O ganlyniad i hyn, dylai dysgwyr gyrraedd y wers gyda chwestiynau am y meysydd nad ydynt yn eu deall, ac felly bydd mwy o amser ar gyfer dadansoddi a gwerthuso'r deunydd o fewn amser y wers. I'r rhai nad ydynt eisiau dilyn y dull hwn, dylai awgrymiadau'r gweithgaredd fod yn ddigon hyblyg i gael eu haddasu.

Amser a gymerwyd: 37 gwers (yn cynnwys asesiadau ac adborth)

Gwers	O'r Fanyleb	Gweithgareddau	Adnoddau	Asesiad	Dysgu Annibynnol
<b>Thema 1: Meddylfryd Moesegol</b>					
<b>A. Damcaniaeth Gorchymyn Dwyfol</b>					
1	Cyflwyniad i Foesege / Geirfa.	<p>Cyflwyniad: A ddylai pawb ddilyn yr un rheolau? Rhannu'r dysgwyr yn grwpiau o bedwar er mwyn trafod. Adborth o syniadau – ysgrifennu rhesymau dros ddweud ie neu na ar y bwrdd.</p> <p>Gan ddefnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol, gofyn i'r dosbarth edrych ar ddiffiniadau rhai termau: teleolegol, deontolegol, canlyniadaethol, gwrthrychol, goddrychol, absoliwtiaid a pherthynolaidd. Gofyn iddynt baru'r geiriau â'r diffiniadau cywir.</p> <p>Ailadrodd y weithgaredd gyda pheth datganiadau moesol. Dylai dysgwyr allu adnabod pa ddatganiadau sy'n ddeontolegol ac ati os ydynt wedi deall y diffiniadau cyntaf.</p> <p>Rhoi dilema moesegol i'r dysgwyr. Gofyn iddynt</p>	<p><a href="http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rId=2309">http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rId=2309</a></p> <p><b>CBAC Astudiaethau Crefyddol UG Athroniaeth Crefydd / Crefydd a Moeseg</b>, Richard Gray a Karl Lawson (Illuminate, 2017)</p> <p><a href="https://spaces.hightail.com/space/Y3170">https://spaces.hightail.com/space/Y3170</a></p>	Canlyniadau pob tasg ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol – asesu ffurfiannol, wedi'i arwain gan y myfyriwr.	Adolygu termau perthnasol o'r eirfa yng Nghanllawiau Addysgu CBAC.

		<p>i'w datrys o bersbectif teleolegol, ac wedyn o un deontolegol.</p> <p>Mynd dros ystyr Cyfraniaeth a gofyn i ddysgwyr addasu eu hateb i'r dilema moesol ar gyfer cyfranolwr.</p> <p>Mewn grwpiau bach, gofyn iddynt lunio rhestr o gryfderau a gwendidau ar gyfer pob ymagwedd. Rhoi adborth i weddill y dosbarth am eu syniadau gorau.</p>			
2	<p>Damcaniaeth Gorchymyn Dwyfol:</p> <p>Damcaniaeth feta-foesegol – Duw fel tarddiad a rheoleiddiwr moesoldeb; mae cywir ac anghywir yn wirioneddau gwrthrychol sy'n seiliedig ar ewyllys / gorchymyn Duw, cyflawnir daioni moesol drwy gydymffurfio â Gorchymyn Dwyfol; Gorchymyn Dwyfol fel un o ofynion natur hollalluog Duw; gorchymyn dwyfol fel sylfaen fetaffisegol wrthrychol ar gyfer moesoldeb.</p> <p>Heriau: dilema Euthyphro (wedi'i ysbrydoli gan Platon).</p>	<p>Cyflwyniad: Beth yw 'daioni'?</p> <p>Mewn parau, gall y dysgwyr drafod y cwestiwn uchod. Mae pob pâr wedyn yn dod at ei gilydd gyda phâr arall i rannu syniadau. Mae pob grŵp o bedwar yn rhannu eu syniad gorau ar y prif fwrdd.</p> <p>Y dosbarth i drafod y problemau posibl â phob un o'r diffiniadau. Y tiwtor i nodi eu syniadau ar y bwrdd mewn lliw gwahanol.</p> <p>O gofio'u darllen cyn y wers, gofyn i ddysgwyr ofyn sut mae damcaniaeth gorchymyn dwyfol yn diffinio daioni. Rhoi diffiniad damcaniaeth gorchymyn dwyfol ar y bwrdd a gofyn i ddysgwyr feddwl am nodweddion y diffiniad hwn o ddaioni, e.e. Mae Duw yn hollalluog, hollraslon, mae'n rheoli'r bydysawd cyfan, ef yw'r creawdwr, y cynhaliwr, mae gan fodau dynol ddyletswydd i ufuddhau.</p> <p>Ydyn nhw'n gallu adnabod unrhyw anawsterau â hyn? Nodi eu syniadau ar y bwrdd mewn lliw gwahanol. Os oes amser, cyflwyno'r cwestiwn ar Euthyphro a'i drafod.</p>	<p><a href="http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rId=2309">http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rId=2309</a></p> <p><b>CBAC Astudiaethau Crefyddol UG Athroniaeth Crefydd / Crefydd a Moeseg</b>, Richard Gray a Karl Lawson (Illuminate, 2017)</p> <p><b>The Elements of Moral Philosophy (Pedwerydd Argraffiad)</b> – James Rachels (McGraw-Hill, 2003) t50</p> <p><a href="https://spaces.hightail.com/space/Y3170">https://spaces.hightail.com/space/Y3170</a></p>	<p>Canlyniadau pob tasg dysgu dan gyfarwyddyd – asesu ffurfiannol, wedi'i arwain gan y tiwtor.</p> <p>Asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu: Trwy drafodaeth a gweithgaredd meddwl am syniadau fel dosbarth cyfan.</p>	<p>Darllen rhan o'r gwerslyfr neu nodiadau'r adran ar y ddamcaniaeth Gorchymyn Dwyfol. Dylai dysgwyr gwblhau tasg darllen a deall. Rhaid cyflwyno'r dasg i'r athro / athrawes er mwyn gwirio eu bod wedi ei chwblhau a'i deall.</p>

<p>3</p>	<p>Heriau: dilema Euthyphro, (wedi'i ysbrydoli gan Platon) problem mympwy (mae'r ddamcaniaeth gorchymyn dwyfol yn gwneud moesoldeb yn gwbl fypwyol), gwrthwynebiad plwraliaeth (mae crefyddau gwahanol yn hawlio gorchymynion dwyfol gwahanol).</p> <p>Damcaniaeth Gorchymyn Dwyfol wedi'i Haddasu' gan Robert Adams (Gorchymyn Dwyfol yn seiliedig ar natur hollgariadus Duw).</p>	<p>Edrych ar ffyrdd o fynegi anawsterau â damcaniaeth gorchymyn dwyfol ar ffurf diagram. Rhannu'r dosbarth yn dri grŵp a dosbarthu darnau mawr o bapur a phennau ffelt. Gall pob grŵp ymdrin â phroblem wahanol, ac wedyn ei chyflwyno i'r dosbarth cyfan.</p> <p>Fel dosbarth cyfan, edrych ar y diagramau a cheisio adnabod sut mae fersiwn diwygiedig Adams wedi datrys y broblem. Oes modd i ni addasu'r diagramau yn wyneb ymateb Adams?</p> <p>Edrych ar y cwestiynau o'r tocynnau mynediad. A oes rhai ohonynt heb eu datrys? Mynd i'r afael â'r rhain fel dosbarth cyfan.</p>	<p><a href="http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rId=2309">http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rId=2309</a></p> <p><b>CBAC Astudiaethau Crefyddol UG Athroniaeth Crefydd / Crefydd a Moeseg</b>, Richard Gray a Karl Lawson (Illuminate, 2017)</p> <p><a href="https://spaces.hightail.com/space/Y3170">https://spaces.hightail.com/space/Y3170</a></p>	<p>Asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu: Fel dosbarth, ystyried cynrychioliadau diagramaidd o bob dilema.</p> <p>Cymhwysio addasiad Adams o'r ddamcaniaeth gorchymyn dwyfol a chanlyniadau trafodaeth y dysgwyr ac addasu'r diagramau.</p>	<p>Darllen am yr heriau i'r ddamcaniaeth gorchymyn dwyfol ac ymatebion Adams cyn y wers. Dod â chwestiynau ar docyn mynediad.</p>
<p>4</p>	<p>Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft: ai moesoldeb yw'r hyn y mae Duw yn ei orchymyn.</p>	<p>Gweithgaredd cymysgu a chyfateb. Rhannu'r dysgwyr yn grwpiau o bedwar ar y mwyaf a rhoi dewis o ddadleuon iddynt ynghylch damcaniaeth gorchymyn dwyfol – dylid eu cymysgu a dylent fod yn gymysgedd o gryfderau a gwendidau. Dylai'r dysgwyr rannu'r rhain i ddau bentwr, cryfderau a gwendidau. Dylent wedyn geisio paru cryfder â gwrthdadau o'r pentwr arall.</p> <p>Yn y diwedd, dylid fod ganddynt ddwy golofn o ddadleuon. Dylent ddefnyddio eu ffonau symudol i dynnu llun o'r canlyniad terfynol i'w argraffu a'i ychwanegu at eu nodiadau.</p>	<p><b>CBAC Astudiaethau Crefyddol UG Athroniaeth Crefydd / Crefydd a Moeseg</b>, Richard Gray a Karl Lawson (Illuminate, 2017)</p> <p><a href="https://spaces.hightail.com/space/Y3170">https://spaces.hightail.com/space/Y3170</a></p>	<p>Asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu – canlyniadau'r gweithgaredd cymysgu a chyfateb.</p>	<p>Darllen deunyddiau ar gryfderau a gwendidau damcaniaeth gorchymyn dwyfol – angenrheidiol ar gyfer y gweithgaredd yn y wers ganlynol. Ateb cwestiynau i ddangos eu bod wedi deall a chwblhau'r dasg.</p>

<b>B. Damcaniaeth Rhinwedd</b>					
5	<p>Damcaniaeth Rhinwedd:</p> <p>System foesebol yn seiliedig ar ddiffinio'r rhinweddau personol sy'n achosi i berson fod yn foisol; y ffocws ar gymeriad person yn hytrach na'i weithredoedd penodol; Rhinweddau moesol Aristotle (yn seiliedig ar brinder; gormodedd a'r cymedr);</p>	<p>Cyflwyniad: gwylio rhan fer o'r ffilm <i>Divergent</i>. Adnabod y carfanau a pha rinweddau sy'n cael eu gwerthfawrogi ym mhob person.</p> <p>Rhoi dilema moesol i'r dysgwyr. Mae trêrn yn rhuthro i lawr trac lle mae plentyn bach yn chwarae ar y lein. Sut fyddai person o bob carfan yn ymateb? (Gall fod yn waith grŵp gyda phob grŵp yn cynrychioli carfan wahanol).</p> <p>Gall y dysgwyr gynnig awgrymiadau ynghylch y tebygrwydd rhwng y rhinweddau sy'n cael eu gwerthfawrogi gan y carfanau a Damcaniaeth Rhinwedd Aristotle.</p> <p>Gweithio trwy'r rhestr o rinweddau a gofyn i ddysgwyr ddiffinio'r rhinweddau / awgrymu pa ddiffiniadau yr oeddent yn eu cael yn anodd. Gall y dysgwyr weithio mewn tîm a chymharu â chyferbynnu canlyniadau'r taflenni gwaith i weld a oes gan bawb yr un diffiniadau / helpu ei gilydd i lenwi'r bylchau.</p> <p>Rhoi taflen waith o ddyfyniadau gan Aristotle ynglŷn â moeseg rhinwedd. Rhannu'r dysgwyr yn barau neu'n grwpiau o dri. Dylai'r dysgwyr drafod y dyfyniadau a chwblhau'r daflen waith gan ychwanegu eu hesboniad o ystyr y dyfyniad a gwerthusiad o'r syniad.</p>	<p><a href="http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rliid=2286">http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rliid=2286</a></p> <p><b>CBAC Astudiaethau Crefyddol UG Athroniaeth Crefydd / Crefydd a Moeseg</b>, Richard Gray a Karl Lawson (Illuminate, 2017)</p> <p><b>The Elements of Moral Philosophy (Pedwerydd Argraffiad)</b> – James Rachels (McGraw-Hill, 2003) t173-187</p> <p><b>The Puzzle of Ethics</b> – Peter Vardy and Paul Grosch (Fount, 1994) t35</p> <p><b>Access to Religious Studies, Foundation for the Study of Religion</b> - Libby Ahluwalia (Hodder and Stoughton, 2001) t.66</p> <p><b>Ethical Studies (Ail argraffiad)</b> - Robert Bowie (Nelson Thornes, 2004) t.111</p> <p><b>Ethics and Religion (Ail Argraffiad)</b> – Joe Jenkins (Heinemann, 2003) t110</p> <p><a href="https://spaces.hightail.com/space/Y3l70">https://spaces.hightail.com/space/Y3l70</a></p>	<p>Mae'n dasg asesu ffurfiannol o ganlyniad i'r dasg ddysgu annibynnol ar ddiffiniadau. Asesu yn rhan o ddysgu. Dysgwyr yn helpu ei gilydd ac yn edrych ar safon eu diffiniadau eu hunain a rhai ei gilydd.</p> <p>Tasg ddarllen a deall ar ddyfyniadau Aristotle.</p>	<p>Darllen am ddamcaniaeth rhinwedd Aristotle / taflen waith y 12 rhinwedd a'u gwendidau priodol – dylai dysgwyr ymchwilio i ddiffiniadau'r termau a chwblhau'r daflen.</p>
6	<p>Dysgeidiaeth Iesu ar rinweddau (y Gwynfydau).</p>	<p>Dangos yr adran berthnasol o Life of Brian o Youtube:</p> <p><a href="https://www.youtube.com/watch?v=slbMe-aTY1A">https://www.youtube.com/watch?v=slbMe-aTY1A</a></p>	<p><b>CBAC Astudiaethau Crefyddol UG Athroniaeth Crefydd / Crefydd a Moeseg</b>, Richard Gray a Karl Lawson (Illuminate, 2017)</p>	<p>Asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu. Tasg Cof ar Wynfydau Iesu, wedi'u seilio ar ddysgu</p>	<p>Darllen am Iesu a'i ddealltwriaeth o rinweddau. Dod â rhestr o dri</p>

		<p>Gofyn i ddysgwyr esbonio beth ddylai fod yn digwydd yn y cefndir yn y lleoliad. Rhannu'r cwestiynau y byddent yn eu gofyn iddo, o'u gwaith cartref.</p> <p>Dylai dysgwyr adnabod beth yw'r rhinweddau o bregeth Iesu ar y mynydd. Y dysgwyr i ffurfio paru a cheisio gwneud rhestr o'u cof. Cymharu â rhestr o grŵp arall. Cael cystadleuaeth i weld pa grŵp sy'n gallu cael y rhestr mwyaf cywir.</p> <p>Gofyn i ddysgwyr adnabod sut mae'r rhinweddau hyn yn debyg neu'n wahanol i Aristotle. Dylai'r gwahaniaethau gynnwys y canlynol: mae rhai o rinweddau Iesu yn ymddangos i fod yn rinweddau Aristotle, mae rhai o'r 'rhinweddau' yn sefyllfaoedd cymdeithasol y mae pobl yn cael eu hunain ynddynt yn hytrach nag agweddau. Nid hapusrwydd yn y bywyd hwn yw nod Iesu, ond hapusrwydd yn y bywyd nesaf.</p>	<p><a href="https://spaces.hightail.com/space/Y3170">https://spaces.hightail.com/space/Y3170</a></p>	<p>dan gyfarwyddyd.</p>	<p>chwestiwn y byddent yn eu gofyn i Iesu am yr hyn sy'n gwneud person yn rhinweddol.</p>
<p>7</p>	<p>Heriau: nid canllaw ymarferol ar gyfer ymddygiad moesol yw rhinweddau; materion yn ymwneud â pherthynolaeth ddiwylliannol (nid yw'r syniadau ynglŷn â rhinweddau da yn rhai byd-eang); gellir defnyddio rhinweddau ar gyfer gweithredoedd anfoesol.</p> <p>Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft</p>	<p>"Nid yw Damcaniaeth Rhinwedd yn ddim o werth mewn dilema moesegol go iawn". Gwerthuswch yr honiad hwn.</p> <p>Rhoi darn o bapur mawr i'r dysgwyr a'u rhannu i grwpiau o dri. Gan ddefnyddio cardiau mynediad cryfderau-a-gwendidau, dylai pob grŵp feddwl am ddwy o'r dadleuon gorau o blaid ac yn erbyn.</p> <p>Newid y papur gyda grŵp arall. Mewn lliw gwahanol, dylai dysgwyr ychwanegu awgrymiadau pam mae'r dadleuon yn gryf</p>	<p><a href="http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rId=2286">http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rId=2286</a></p> <p><b>CBAC Astudiaethau Crefyddol UG Athroniaeth Crefydd / Crefydd a Moeseg</b>, Richard Gray a Karl Lawson (Illuminate, 2017)</p> <p><b>The Elements of Moral Philosophy (Pedwerydd Argraffiad)</b> – James Rachels (McGraw-Hill, 2003) t173-187</p> <p><b>The Puzzle of Ethics</b> – Peter Vardy and Paul Grosch (Fount, 1994) t35</p>	<p>Asesu ffurfiannol fel dysgu. Rhaid i ddysgwyr ddadansoddi a gwerthuso pob dadl y maent wedi eu dewis a dewis y dadleuon sydd fwyaf addas ar gyfer y cwestiwn. Mae'r dadansoddiad o'r dadleuon sy'n cael ei gyflwyno gan grwpiau eraill hefyd yn cael ei asesu gan ddysgwyr</p>	<p>Darllen am yr heriau i ddamcaniaeth rhinwedd. Dylai dysgwyr ddod gyda thocyn mynediad sy'n cynnwys y cryfder a'r gwendid sydd fwyaf cymhellgar yn eu barn nhw.</p>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>A yw bod yn berson da yn well na gwneud gweithredoedd da yn unig.</li> </ul> <p>A yw damcaniaeth rhinwedd yn ddefnyddiol pan fydd dilema moesol yn codi.</p>	<p>neu'n wan at y darn papur newydd. Newid eto, ac yn seiliedig ar y dadleuon o'u blaenau, dylai dysgwyr gynhyrchu casgliad. Anfon y taflenni yn ôl at y grŵp gwreiddiol iddynt gael edrych drostynt a'u trafod.</p>	<p><b>Access to Religious Studies, Foundation for the Study of Religion</b> - Libby Ahluwalia (Hodder and Stoughton, 2001) t.66</p> <p><b>Ethical Studies (Ail argraffiad)</b> - Robert Bowie (Nelson Thornes, 2004) t.111</p> <p><b>Ethics and Religion (Second Edition)</b> – Joe Jenkins (Heinemann, 2003) t110</p> <p><a href="https://spaces.hightail.com/space/Y3I70">https://spaces.hightail.com/space/Y3I70</a></p>	<p>yma er mwyn cryfhau ymatebion.</p>	
8	<p>Adborth am y traethawd blaenorol a gafodd ei amseru.</p>	<p>Amser DIRT (<i>Dedicated Improvement Reflection Time</i>)</p> <p>Adborth â phen gwyrdd a gosod targedau ar gyfer myfyrwyr. Os yw'n briodol, dylid gweld myfyrwyr ar eu pennau eu hunain.</p>	<p>Ymatebion enghreifftiol o werslyfrau.</p> <p><b>CBAC Astudiaethau Crefyddol UG Athroniaeth Crefydd / Crefydd a Moeseg</b>, Richard Gray a Karl Lawson (Illuminate, 2017)</p>	<p>Asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu: hunanasesiad.</p> <p>Ymatebion i'r myfyrwyr mewn inc gwyrdd, adborth a gosod targedau.</p>	<p>Ail-ddrafftio paragraffau allweddol.</p>

### C. Myfiaeth Foesebol

9	<p>Myfiaeth Foesebol:</p> <p>Moeseg asiant-ganolog normadol yn seiliedig ar hunan-les yn hytrach nag allgaredd; damcaniaeth foesebol sy'n cyd-fynd â chyflwr seicolegol yr asiant moesol (myfiaeth seicolegol); canolbwyntio ar hunan-les tymor hir yn hytrach na buddiannau tymor byr;</p>	<p>Gwyllo'r clip canlynol <a href="https://www.youtube.com/watch?v=DowJfUmlzel">https://www.youtube.com/watch?v=DowJfUmlzel</a></p> <p>Beth mae'r dysgwyr yn ei feddwl? Ydy'r enghraifft hon yn fyfiaeth seicolegol neu foesebol? Trafodwch.</p> <p>Dosbarthu taflen waith yn cynnwys dilemâu moesegol amrywiol gan annog dysgwyr mewn grwpiau bach i siarad am yr hyn y byddent yn ei wneud (mae nifer o'r rhain ar TES neu ar Google Drive ar gyfer grwpiau Facebook caeedig. <i>Save RE</i> neu <i>Eduqas A-Level Religious Studies Teachers</i>)</p> <p>Fel dosbarth cyfan, ydyn nhw'n meddwl ei fod yn well iddynt wneud yr hyn sydd orau iddyn nhw neu i'r bobl eraill yn y sefyllfa? Rhoi rhesymau dros eu safbwyntiau. Ydy eu rhesymu yn newid wrth ystyried buddiannau tymor byr yn erbyn buddiannau tymor hir?</p> <p>Gall y dysgwyr ffurfio parau a llunio diagram sy'n dangos y gwahaniaethau a'r cysylltiadau rhwng myfiaeth seicolegol (rydym yn gweithredu er ein lles ein hun), myfiaeth foesebol (dylem weithredu er ein lles ein hunain) ac anhunanoldeb (gallwn, neu dylem, roi pobl eraill yn gyntaf).</p> <p>Rhoi arwyddion o amgylch yr ystafell yn dweud "wedi ei ateb", "efallai ei fod wedi ei ateb" a "heb ei ateb". Gofyn i ddysgwyr gael eu cwestiynau tocyn mynediad wrth law a sefyll ger yr arwydd sy'n cynrychioli orau ydy eu cwestiwn wedi ei ateb neu beidio. Gall y rhai sy'n credu ei</p>	<p><a href="http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rliid=2308">http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rliid=2308</a></p> <p><b>WJEC/Eduqas Religious Studies for A Level, Year 1 and AS– Philosophy of Religion and Religion and Ethics.</b> Richard Gray a Karl Lawson (Illuminate, 2017)</p> <p><b>The Elements of Moral Philosophy (Pedwerydd Argraffiad)</b> – James Rachels (McGraw-Hill, 2003) t48-184</p> <p><b>Ethics and Religion (Ail Argraffiad)</b> – Joe Jenkins (Heinemann, 2003) t67</p> <p><a href="https://spaces.hightail.com/space/Y3170">https://spaces.hightail.com/space/Y3170</a></p>	<p>Asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu gan ddefnyddio tasg ddiagram.</p> <p>Hunanasesu gan ddysgwyr gyda chwestiwn arwyddion ac asesu gan gyfoedion gyda chymorth y dosbarth i fynd i'r afael â chwestiynau.</p>	<p>Darllen ar fyfiaeth foesebol o Hightail Notes neu'r gwर्सlyfr i baratoi ar gyfer y wers. Dod â thocynnau mynediad ar ffurf cwestiynau, naill ai yn seiliedig ar wybodaeth neu ddadansoddi.</p>
---	---	--	--	---	---



		fod, ddarllen eu cwestiwn a dweud yr ateb wrth y dosbarth. Gall y rhai sy'n meddwl 'efallai' wneud yr un peth gan gynnal trafodaeth os oes angen cymorth arnynt. Gall y rhai nad ydynt yn meddwl bod eu cwestiwn wedi ei ateb, ddarllen y cwestiwn a gall y dosbarth cyfan fynd i'r afael â'r materion, gyda chymorth y tiwtor.			
10	Max Stirner, hunan-les sydd wrth wraidd pob gweithred ddynol hyd yn oed os yw'n ymddangos yn allgarol; gwrthod myfiaeth er mwyn elwa'n faterol; undeb y myfiwyr.	<p>Dylai dysgwyr ffurfio parau a rhannu'r adrannau ar y fanyleb ar Max Stirner, gan eu defnyddio fel penawdau colofnau ar ddalen A3.</p> <p>O fewn pob colofn, crynhoi'r esboniad o Stirner lawr i 8 pwynt bwled ar y mwyaf ar gyfer pob colofn. Gall y tiwtor ddsbarthu'r gweithgaredd a chyngori fel bo'n briodol.</p>	<p><a href="http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rId=2308">http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rId=2308</a></p> <p><b>WJEC/Eduqas Religious Studies for A Level, Year 1 and AS– Philosophy of Religion and Religion and Ethics.</b> Richard Gray a Karl Lawson (Illuminate, 2017) <b>The Elements of Moral Philosophy (Pedwerydd Argraffiad)</b> – James Rachels (McGraw-Hill, 2003) t48-184 <b>Ethics and Religion (Ail Argraffiad)</b> – Joe Jenkins (Heinemann, 2003) t67 <a href="https://spaces.hightail.com/space/Y3170">https://spaces.hightail.com/space/Y3170</a></p>	Asesiad cronnus i raddau trwy'r diffiniadau o eirfa allweddol ar eu herthyglau wici. Gall hyn fod yn dasg grŵp os ydy'r tiwtoriaid eisiau rhannu'r eirfa rhwng grŵp bach.	Darllen am Stirner. Cynhyrchu taflen waith wici neu wici ar-lein ar gyfer yr eirfa allweddol a ddefnyddir yn y testun a dod â hi i'r wers.
11	Heriau: mae'n dinistrio ethos cymuned; gallai anghyfiawnderau cymdeithasol ddigwydd wrth i unigolion flaenoriaethu eu buddiannau eu hunain; math o ragfarn (pam mae un asiant moesol yn bwysicach nag unrhyw asiant moesol arall?).  Bydd materion i'w	<p>Rhoi taflen waith i'r dysgwyr sy'n rhestru'r prif heriau a nodir yn y fanyleb:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dinistr cymuned</li> <li>• Anghyfiawnder Cymdeithasol</li> <li>• Rhagfarn</li> <li>• Yn arwain at ddrygioni moesol</li> </ul> <p>Mewn grwpiau o 3 neu 4, gofyn iddynt feddwl am gymaint o syniadau ag y gallant ar gyfer:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Sut y gall myfiaeth esgor ar y syniadau hyn?</li> <li>2. Enghraifft wedi'i datrys ar gyfer pob her, i gefnogi eu syniadau. Fan hyn, gallent ddefnyddio'r erthyglau y daethant o hyd</li> </ol>	<p><a href="http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rId=2308">http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rId=2308</a></p> <p><b>WJEC/Eduqas Religious Studies for A Level, Year 1 and AS– Philosophy of Religion and Religion and Ethics.</b> Richard Gray a Karl Lawson (Illuminate, 2017) <b>The Elements of Moral Philosophy (Pedwerydd Argraffiad)</b> – James Rachels (McGraw-Hill, 2003) t48-184 <b>Ethics and Religion (Ail Argraffiad)</b> – Joe Jenkins (Heinemann, 2003) p67</p>	Asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu a hunanasesiad gan ddysgwyr er mwyn cwblhau'r daflen waith a thrwy'r canlyniad terfynol.  Dylai'r sesiwn cwestiwn ac ateb fod yn ymateb gan y tiwtor neu ddysgwyr eraill i feysydd sydd angen	Darllen am yr heriau i fyfiaeth foesegol cyn y wers. Dod ag erthygl newyddion sy'n dangos ymagwedd fyfiol i ymddygiad moesol.

	<p>dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>I ba raddau y mae myfïaeth foesebol yn anochel yn arwain at ddrygioni moesol.</li> <li>I ba raddau mae hunan-les yn sail i bob gweithred foesol.</li> </ul>	<p>iddynt ar gyfer eu gwaith cartref.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Cynnig gwrthddadl ar gyfer pob syniad.</li> <li>Gellir defnyddio ysgolhaig i gefnogi dadl.</li> </ol> <p>Dylai dysgwyr wedyn baru a chymharu taflenni gwaith. Ym mha rannau y daethant o hyd i lawer o syniadau, a lle mae angen help arnynt? Rhannu syniadau, gan nodi'r rhai sydd angen help arnynt i'w trafod. Gorffen gyda sesiwn cwestiwn ac ateb er mwyn sicrhau bod unrhyw feysydd gwan yn eglur.</p>	<p><a href="https://spaces.hightail.com/space/Y3170">https://spaces.hightail.com/space/Y3170</a></p>	<p>datblygu o ganlyniad i hunanasesiad y dysgwr, neu drwy ganlyniadau taflen waith gan y tiwtor.</p>	
12	Traethawd wedi'i amseru.	<p>Dewis cwestiwn o gyn-bapur neu gwestiwn enghreifftiol o werslyfr neu ddeunyddiau bwrdd arholi.</p>	<p><a href="http://www.cbac.co.uk/qualification/s/religious-studies/r-religious-studies-gce-asa-from-2016/wjec-gce-religious-studies-sams-from-2016-we.pdf?language_id=2">http://www.cbac.co.uk/qualification/s/religious-studies/r-religious-studies-gce-asa-from-2016/wjec-gce-religious-studies-sams-from-2016-we.pdf?language_id=2</a></p> <p><b>WJEC/Eduqas Religious Studies for A Level, Year 1 and AS– Philosophy of Religion and Religion and Ethics.</b> Richard Gray a Karl Lawson (Illuminate, 2017)</p>	<p>Asesiad Crynodol dysgu: asesiad ffurfiol: traethawd wedi'i amseru.</p>	<p>Adolygu Traethawd wedi'i amseru cyn y wers (asesiad cronnus o ddysgu).</p>
C3T1A-C	<p><i>Tasg estynedig: A yw un o'r damcaniaethau - Damcaniaeth Gorchymyn Dwyfol, Damcaniaeth Rhinwedd neu Fyfiaeth Foesebol - yn well na'r damcaniaethau eraill.</i></p>	<p><i>Dadl dawel. Tri darn mawr o bapur ar lawr yr ystafell, pob un gyda theitl damcaniaeth foesebol. Mae gan ddysgwyr bentwr o nodiadau post-it ac ysgrifbin. Dylent symud rhwng y darnau o bapur gan ludo post-it arnynt gyda her neu osodiad sy'n cefnogi'r ddamcaniaeth. Os ydynt yn darllen post-it dysgwr arall, dylent ludo un drosto gyda gwrthddadl neu neges o gefnogaeth.</i></p> <p><i>Rhoi'r darnau papur mawr mewn rhannau gwahanol o'r ystafell a gofyn i ddysgwyr sefyll</i></p>	<p><i>WJEC/Eduqas Religious Studies for A Level, Year 1 and AS– Philosophy of Religion and Religion and Ethics. Richard Gray a Karl Lawson (Illuminate, 2017)</i></p> <p><i>The Elements of Moral Philosophy (Pedwerydd Argraffiad) - James Rachels (McGraw-Hill, 2003)</i></p> <p><i>Ethics and Religion (Second Edition) – Joe Jenkins (Heinemann, 2003)</i></p> <p><i>The Puzzle of Ethics – Peter Vardy and Paul Grosch (Fount, 1994)</i></p>	<p><i>Asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu trwy'r ddadl.</i></p>	

*wrth y ddamcaniaeth y maent yn meddwl sydd orau. Nawr, dylent fynegi syniadau ynglŷn â pham maent yn credu mai eu syniad nhw sydd orau, a chyflwyno dadleuon fydd yn perswadio pobl eraill i ymuno â nhw.*

*Access to Religious Studies,  
 Foundation for the Study of Religion  
 - Libby Ahluwalia (Hodder and  
 Stoughton, 2001)*

## Thema 2 : Deddf Naturiol Aquinas – ymagwedd grefyddol at foeseg

### A. Deddf Naturiol Sant Thomas Aquinas – deddfau a gofynion fel sail i foesoldeb:

<p>13</p>	<p>Pedair lefel Aquinas o ddeddf (tragwyddol, dwyfol, naturiol a dynol); Y Ddeddf Naturiol yn deillio o feddylfryd rhesymegol; yn seiliedig ar y gred mewn creawdwr dwyfol (y daioni uchaf yw'r ddealltwriaeth resymegol o bwrpas terfynol Duw). Y Ddeddf Naturiol fel math o absoliwtiaeth foesol a damcaniaeth sy'n cynnwys agweddau deontolegol a theleolegol.</p>	<p>Byrddau gwyn bach: cynnal cwis geirfa 5 munud gan ddefnyddio peth o'r eirfa allweddol ar gyfer rhan hon y cwrs yn seiliedig ar eu gwaith darllen.</p> <p>Sesiwn gwestiwn ac ateb ar y meysydd yr oedd dysgwyr yn eu hystyried i fod yn anodd.</p> <p>Tasg ysgrifennu ar y Ddeddf Naturiol: yn seiliedig ar y gwaith darllen a wnaethant ar gyfer eu gwaith cartref, dylai dysgwyr gwblhau tasg ysgrifennu ddechreuol ar y pedwar lefel o gyfraith yn y Ddeddf Naturiol.</p> <p>Rhoi'r meini prawf canlynol ar y bwrdd:</p> <p><b>Rhaid iddynt:</b> Enwi a diffinio pob lefel  <b>Dylent:</b> Roi enghraifft o'r mathau o gyfreithiau fyddai ar bob lefel  <b>Gallent:</b> Ddangos sut mae pob lefel yn gysylltiedig â'r lleill uwchben ac islaw.  <b>Gallent:</b> Esbonio beth yw ystyr hyn ar gyfer gwneud penderfyniadau moesol.  <b>Geirfa allweddol:</b> Yr Ysgrythur / deontolegol / diben / cynhenid / absoliwt / cyfreithiol / achos eithaf / cymhareb recta / datguddiad / daioni uchaf</p> <p>Bydd y dyfnder y mae dysgwyr yn mynd iddo yn cael ei adlewyrchu yn y lefel y byddant yn ei derbyn (gan gymryd bod y wybodaeth yn fanwl gywir).</p> <p>Y dysgwyr i gyfnewid atebion a marcio gwaith partner yn ôl y meini prawf ar y bwrdd. Gosod lefelau i bob maen prawf i'w wneud yn haws i ddysgwyr weld y potensial i wneud cynnydd. Unwaith mae'r gwaith wedi'i farcio yn cael ei anfon yn ôl, dylai</p>	<p><a href="http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rId=2310">http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rId=2310</a></p> <p><a href="https://www.youtube.com/watch?v=Qx_DAtUtLk0&amp;list=PL2ggVdhXSioy_iwO0M7Phg7dnc702JVpM">https://www.youtube.com/watch?v=Qx_DAtUtLk0&amp;list=PL2ggVdhXSioy_iwO0M7Phg7dnc702JVpM</a></p> <p><a href="https://www.youtube.com/watch?v=a5I1xqx7Y&amp;list=PL2ggVdhXSioy_iwO0M7Phg7dnc702JVpM&amp;index=3">https://www.youtube.com/watch?v=a5I1xqx7Y&amp;list=PL2ggVdhXSioy_iwO0M7Phg7dnc702JVpM&amp;index=3</a></p> <p><a href="https://www.youtube.com/watch?v=N9_MmzwmdCA&amp;index=9&amp;list=PL2ggVdhXSioy_iwO0M7Phg7dnc702JVpM">https://www.youtube.com/watch?v=N9_MmzwmdCA&amp;index=9&amp;list=PL2ggVdhXSioy_iwO0M7Phg7dnc702JVpM</a></p> <p><b>CBAC Astudiaethau Crefyddol UG Athroniaeth Crefydd / Crefydd a Moeseg,</b> Richard Gray a Karl Lawson (Illuminate, 2017)  <b>The Elements of Moral Philosophy (Pedwerydd Argraffiad)</b> – James Rachels (McGraw-Hill, 2003) t53  <b>The Puzzle of Ethics</b> – Peter Vardy and Paul Grosch (Fount, 1994) t52  <b>Access to Religious Studies, Foundation for the Study of Religion -</b> Libby Ahluwalia (Hodder and Stoughton, 2001) t.58  <b>Ethical Studies (Ail Argraffiad)</b> - Robert Bowie (Nelson Thornes, 2004) t.23  <b>Religion and Ethics for AS Students</b> – Noel A Davies (UWIC, 2003) t 9  <b>WJEC AS Religious Studies Study and Revision Guide</b> – Karl Lawson and</p>	<p>Asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu trwy gwis bwrdd gwyn bach, gan arwain at sesiwn gwestiwn ac ateb.</p> <p>Asesiad cronnus o ddysgu trwy'r dasg ysgrifennu ar y Ddeddf Naturiol er mwyn hybu pwysigrwydd cwblhau dysgu dan arweiniad.</p> <p>Asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu trwy asesu gan gyfoedion o'r dasg ysgrifenedig a hunanasesiad, er mwyn gweld sut i gyrraedd y lefelau uwch.</p>	<p>Gwyllo / darllen am y pedair lefel o gyfraith o werslyfr neu nodiadau adrannol, a gwyllo'r ffilmau cyntaf. Llunio trefnydd gwybodaeth ar gyfer y pedair lefel o gyfraith.</p>
-----------	---	---	---	---	--

		dysgwyr osod eu targed eu hunain i wella eu lefel. Ail-ddrafftio os oes amser.	Andrew Pearce (Illuminate, 2012) t76 <a href="https://spaces.hightail.com/space/o45hl">https://spaces.hightail.com/space/o45hl</a>		
14	Y pum rheol gynradd (cadw bywyd, cymdeithas drefnus, addoli Duw, addysg ac atgenedlu'r ddynoliaeth) yn deillio o feddylfryd rhesymegol ac yn seiliedig ar y cysyniad o 'wneud daioni ac osgoi drygioni'; y gofynion eilaidd sy'n deillio o'r gofynion cynradd; pwysigrwydd ufuddhau i'r gofynion er mwyn sefydlu'r berthynas iawn â Duw ac er mwyn sicrhau bywyd tragwyddol gyda Duw yn y nefoedd.	<p>Prawf Adnabod Cyflym i ddysgwyr ar y rheolau cynradd i wirio eu bod wedi gwneud y gwaith darllen. Rhannu eu syniadau gofyniad eilaidd.</p> <p>Trefnu'r dosbarth yn grwpiau o 3 neu 4, a rhoi senario moesegol gwahanol i bob un (fel y rhai isod). Gofyn i bob grŵp i ddarganfod pa reolau eilaidd y gall gael eu ffurfio y byddai'n helpu pob i wybod beth i wneud. :</p> <p><b>Mae dau ddyn hoyw yn cwrdd ac yn hoff o'i gilydd. Maen nhw eisiau dechrau perthynas.</b> Dylai dysgwyr gadarnhau – dim rhyw gyfunrywiol oherwydd atgenedlu a threfn gymdeithasol. Hefyd, addoli Duw gan fod y Beibl yn dweud na hefyd.</p> <p><b>Mae dyn ag afiechyd terfynol yn flinedig ac mewn poen, nid oes unrhyw foddion lleddfu poen yn helpu.</b> Dylai dysgwyr gadarnhau – dim ewthanasia na hunanladdiad er mwyn cynnal bywyd.</p> <p><b>Mae merch 16 mlwydd oed yn feichiog o ganlyniad i gael rhyw gyda'i chariad 17 mlwydd oed.</b> Dylai dysgwyr gadarnhau – dim erthylid er mwyn cynnal bywyd a dylid priodi oherwydd trefn cymdeithas.</p> <p>Adborth.</p> <p>Fel dosbarth cyfan, edrych ar enghraifft rhyw. I ddechrau, cadarnhau diben rhyw. Defnyddio'r rheolau cynradd i restru cymaint o reolau eilaidd ag y gallant ynghylch pa ymddygiad rhywiol sy'n cael ei ganiatáu a sydd ddim yn cael ei ganiatáu.</p>	<p><a href="http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rId=2310">http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rId=2310</a></p> <p><a href="https://www.youtube.com/watch?v=cK9v7mqO30Q&amp;list=PL2ggVdhXSioy_iwO0M7Phg7dnc702JVpM&amp;index=4">https://www.youtube.com/watch?v=cK9v7mqO30Q&amp;list=PL2ggVdhXSioy_iwO0M7Phg7dnc702JVpM&amp;index=4</a></p> <p><b>CBAC Astudiaethau Crefyddol UG Athroniaeth Crefydd / Crefydd a Moeseg</b>, Richard Gray a Karl Lawson (Illuminate, 2017)</p> <p><b>The Elements of Moral Philosophy (Pedwerydd Argraffiad)</b> – James Rachels (McGraw-Hill, 2003) t53</p> <p><b>The Puzzle of Ethics</b> – Peter Vardy and Paul Grosch (Fount, 1994) t52</p> <p><b>Access to Religious Studies, Foundation for the Study of Religion</b> - Libby Ahluwalia (Hodder and Stoughton, 2001) t.58</p> <p><b>Ethical Studies (Ail Argraffiad)</b> - Robert Bowie (Nelson Thornes, 2004) t.23</p> <p><b>Religion and Ethics for AS Students</b> – Noel A Davies (UWIC, 2003) t 9</p> <p><b>WJEC AS Religious Studies Study and Revision Guide</b> – Karl Lawson and Andrew Pearce (Illuminate, 2012) t76 <a href="https://spaces.hightail.com/space/o45hl">https://spaces.hightail.com/space/o45hl</a></p>	Asesiad cronus cyflym o ddysgu, prawf adnabod i wirio'r wybodaeth sydd wedi cael ei ddysgu.	Paratoi ar gyfer y wers nesaf ar y ddeddf naturiol, a rheolau cynradd ac eilaidd gan ddarllen neu wyllo deunydd cyn y wers. Dod ag enghraifft o un rheol eilaidd maent yn meddwl y gall gael ei ffurfio o bob un cynradd.

## B. Deddf Naturiol Aquinas – swyddogaeth y rhinweddau a'r daioni o ran cefnogi ymddygiad moesol

15	<p>Yr angen i fodau dynol fod yn debycach i Dduw drwy ddatblygu'r tair rhinwedd ddatguddiedig (ffydd, gobaith ac elusengarwch) a'r pedair prif rinwedd (gwroldeb, cymedroldeb, pwyll a chyfiawnder).</p>	<p>Mewn parau, gall dysgwyr rhestru'r rhinweddau y maent wedi darllen amdanynt. Dylent weld os y gallent:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Gael y rhif cywir</li> <li>Eu categorio i rhinweddau datguddiedig a phrif rinweddau.</li> <li>Diffinio pob un yn gywir.</li> </ol> <p>Rhowch daflen waith i bob pâr gyda'r senario canlynol neu ddangos y senario hwn ar y bwrdd. Neu, rhoi senario gwahanol i bob grŵp i gwblhau'r dasg.</p> <p>Mae merch 16 mlwydd oed yn feichiog. Mae hi'n sengl, ac nid yw eto wedi gorffen eu harholiadau TGAU.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Beth mae'r rheolau cynradd ac eilaidd yn ei ddweud wrthi am wneud? Pam?</li> <li>Sut bydd y rhinweddau o gymorth iddi i wneud y penderfyniad? Defnyddio'r enghreifftiau o'r rhinweddau mwyaf defnyddiol a sut fyddant o gymorth, e.e. <i>bydd gochelgarwch yn ei helpu i weithio trwy'r rheolau a meddwl am y peth yn ofalus, bydd dewrder yn rhoi'r cryfder iddi fynd trwy'r beichiogrwydd wrth iddi gwblhau ei hastudiaethau, bydd cyfiawnder yn sicrhau nad yw'r plentyn yn cael ei gosbi am gamgymeriadau pobl eraill ac ati.</i></li> </ol> <p>Pob grŵp i roi adborth i'r dosbarth. Mynd o amgylch y dosbarth i weld a yw'r cwestiynau a baratowyd ganddynt ar gyfer eu gwaith cartref bellach wedi cael eu datrys. Mynd i'r afael ag unrhyw un nad yw wedi cael ei ddatrys.</p>	<p><a href="http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/RresourceSingle.aspx?rId=2310">http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/RresourceSingle.aspx?rId=2310</a></p> <p><a href="https://www.youtube.com/watch?v=d_qBAGya2Dk&amp;index=8&amp;list=PL2ggVdhXSioy_iwO0M7Phg7dnc702JVpM">https://www.youtube.com/watch?v=d_qBAGya2Dk&amp;index=8&amp;list=PL2ggVdhXSioy_iwO0M7Phg7dnc702JVpM</a></p> <p><b>CBAC Astudiaethau Crefyddol UG Athroniaeth Crefydd / Crefydd a Moeseg</b>, Richard Gray a Karl Lawson (Illuminate, 2017)</p> <p><b>The Elements of Moral Philosophy (Pedwerydd Argraffiad)</b> – James Rachels (McGraw-Hill, 2003) t53</p> <p><b>The Puzzle of Ethics</b> – Peter Vardy and Paul Grosch (Fount, 1994) t52</p> <p><b>Access to Religious Studies, Foundation for the Study of Religion</b> - Libby Ahluwalia (Hodder and Stoughton, 2001) t.58</p> <p><b>Ethical Studies (Ail Argraffiad)</b> - Robert Bowie (Nelson Thornes, 2004) t.23</p> <p><b>Religion and Ethics for AS Students</b> – Noel A Davies (UWIC, 2003) t 9</p> <p><b>WJEC AS Religious Studies Study and Revision Guide</b> – Karl Lawson and Andrew Pearce (Illuminate, 2012) t76</p> <p><a href="https://spaces.hightail.com/space/o45hl">https://spaces.hightail.com/space/o45hl</a></p>	<p>Mae'r dasg 'rhestrwch y rhinweddau' yn dasg asesu cronus i wirio'r wybodaeth sy'n cael ei chaffael yn y cartref.</p> <p>Asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu trwy'r dasg rhinweddau, yn cael ei gryfhau ymhellach trwy asesu gan gyfoedion yn ystod adborth.</p>	<p>Darllen neu wyllo'r deunydd ar rinweddau yn y Ddeddf Naturiol. Cardiau mynediad.</p>
16	<p>Diffiniad Aquinas o'r gwahanol fathau o</p>	<p>Rhannu'r dosbarth yn grwpiau o 4. Dylid rhoi senario moesol gwahanol wedi'i lamineiddio i bob grŵp. Ar</p>	<p><a href="http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/RresourceSingle.aspx?rId=2310">http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/RresourceSingle.aspx?rId=2310</a></p>	<p>Asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu, tiwtor yn</p>	<p>Darllen neu wyllo deunydd ar ran</p>

weithredoedd a daioni: gweithredoedd mewnol (bwriad yr asiant moesol wrth gyflawni gweithred) a gweithredoedd allanol (gweithredoedd asiant moesol); daioni gwirioneddol (daioni yn seiliedig ar resymeg gywir sy'n cynorthwyo'r asiant moesol i gyflawni telos) a daioni ymddangosiadol (daioni yn seiliedig ar resymeg anghywir nad ydyw'n cynorthwyo'r asiant moesol i gyflawni ei bwrpas a roddir gan Dduw).

gyfer pob un, dylai dysgwyr drafod ac ateb y cwestiynau canlynol:

- 1.) Adnabod y weithred sydd wir yn dda yn y sefyllfa hon – dangos rhesymu.
- 2.) Adnabod y weithred sy'n ymddangos yn dda – dangos rhesymu.
- 3.) Beth gall gweithred allanol y person hwn fod?
- 4.) Beth yw gweithred allanol y person hwn?

Os oes amser yn y wers, gall grwpiau wedyn gyfnewid senarios ar garwsél, gan ateb yr un cwestiynau ym mhob achos.

Adborth i'r dosbarth cyfan. Gall pob grŵp roi adborth ar stori gwahanol.

#### Storïau posibl:

- Mae Rob yn cerdded i'r coleg pan mae'n gweld bachgen mae'n ei ffansio ar ochr arall y ffordd. Ymhellach ymlaen, mae merch ddall sy'n ei chael yn anodd i groesi'r ffordd brysus.
- Mae Aalia a'i chariad yn eu ugeiniau canol, wedi'i hymrwymo i'w gilydd mewn perthynas glos, ond nid ydynt yn briod. Mae'r ddau ohonynt eisiau dechrau cael rhyw. Mae'r ddau ohonynt yn gweithio'n galed i sefydlu gyrfaoedd.
- Mae gan Sunil afiechyd terfynol ac mae ganddo flwyddyn i fyw. Mae'n briod â dau o blant ac ni fydd ei yswiriant bywyd yn cael ei adnewyddu pan fydd y cwmni yswiriant yn dod i wybod. Nid yw mewn poen eto, ond mae'n disgwyl bod cyn y diwedd.

[https://www.youtube.com/watch?v=1pFNGBSvPYE&list=PL2ggVdhXSioy\\_iwO0M7Phg7dnc702JVpM&index=6](https://www.youtube.com/watch?v=1pFNGBSvPYE&list=PL2ggVdhXSioy_iwO0M7Phg7dnc702JVpM&index=6)

[https://www.youtube.com/watch?v=va1as-mq4M0&list=PL2ggVdhXSioy\\_iwO0M7Phg7dnc702JVpM&index=7](https://www.youtube.com/watch?v=va1as-mq4M0&list=PL2ggVdhXSioy_iwO0M7Phg7dnc702JVpM&index=7)

**CBAC Astudiaethau Crefyddol UG Athroniaeth Crefydd / Crefydd a Moeseg**, Richard Gray a Karl Lawson (Illuminate, 2017)

**The Elements of Moral Philosophy (Pedwerydd Argraffiad)** – James

Rachels (McGraw-Hill, 2003) t53

**The Puzzle of Ethics** – Peter Vardy and Paul Grosch (Fount, 1994) t52

**Access to Religious Studies, Foundation for the Study of Religion** - Libby Ahluwalia (Hodder and Stoughton, 2001) t.58

**Ethical Studies (Ail Argraffiad)** - Robert Bowie (Nelson Thornes, 2004) t.23

**Religion and Ethics for AS Students** – Noel A Davies (UWIC, 2003) t 9

**WJEC AS Religious Studies Study and Revision Guide** – Karl Lawson and Andrew Pearce (Illuminate, 2012) t76  
<https://spaces.hightail.com/space/045hl>

gwirio dysgu'r grwpiau wrth iddynt fynd o amgylch y carwsél. Cynnig cefnogaeth pan fo angen. Wrth iddynt fynd o amgylch, dylai'r dasg gael ei chwblhau'n gynt ac yn fwy manwl gywir.

Asesu gan gyfoedion yn ystod adborth o'r tasgau.

nesaf y Ddeddf Naturiol Moesegol ar fathau gwahanol o nwyddau a gweithredoedd, wrth baratoi ar gyfer y wers. Creu neu addasu'r trefnydd gwybodaeth / siart lliw blaenorol ar gyfer elfennau gwahanol Deddf Naturiol Aquinas.

17	Adborth am y traethawd gafodd ei amseru.	<p>Amser DIRT (<i>Dedicated Improvement Reflection Time</i>)</p> <p>Adborth â phen gwyrdd a gosod targedau ar gyfer myfyrwyr. Os yw'n briodol, dylid gweld myfyrwyr ar eu pennau eu hunain.</p>	<p>Ymatebion enghreifftiol o werslyfrau.</p> <p><b>CBAC Astudiaethau Crefyddol UG Athroniaeth Crefydd / Crefydd a Moeseg</b>, Richard Gray a Karl Lawson (Illuminate, 2017).</p>	<p>Asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu: hunanasesiad.</p> <p>Ymatebion i'r myfyrwyr mewn inc gwyrdd, adborth a gosod targedau.</p>	<p>Ail-ddrafftio paragraffau allweddol.</p>
----	--	---	--	---	---



### C. Deddf Naturiol Aquinas – cymhwyso'r ddamcaniaeth:

<p>18</p>	<p>Cymhwyso Deddf Naturiol Aquinas at y ddau fater a restrir isod:</p> <p>1. erthyliaid</p> <p><b>Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• I ba raddau y gall y ddeddf ddynol gael ei dylanwadu gan Ddeddf Naturiol Aquinas.</li> <li>• I ba raddau y mae natur absoliwtaidd a/neu ddeontolegol Deddf Naturiol Aquinas yn gweithio yn y gymdeithas gyfoes.</li> <li>• Cryfderau a gwendidau Deddf Naturiol Aquinas.</li> <li>• Ystyried a yw Deddf Naturiol Aquinas yn hyrwyddo anghyfiawnder.</li> <li>• Effeithiolrwydd Deddf Naturiol Aquinas wrth ymdrin â materion moesegol.</li> <li>• I ba raddau y mae Deddf Naturiol Aquinas yn ddiystyr heb gred mewn Duw fel creawdwr.</li> </ul>	<p>Gall dysgwyr ffurfio grwpiau o 4 ac mae pob grŵp yn derbyn senario o fenyw wahanol sy'n feichiog ac efallai'n ystyried cael erthyliaid am reswm gwahanol.</p> <p>Mewn grwpiau, dylai'r dysgwyr drafod:</p> <p>a.) Beth mae'r rheolau cynradd / eilaidd yn dweud ddylai ddigwydd?</p> <p>b.) Sut y gallai'r rhinweddau fod yn ddefnyddiol?</p> <p>c.) Sut y gall / y dylai hyn gael effaith ar ddeddf ddynol?</p> <p>d.) Sut mae Cyfraith Ddwylfol yn effeithio'r broses resymu?</p> <p>e.) A yw'r gweithredoedd mewnol / allanol yn gallu gwneud erthyliaid yn esgusadwy trwy effaith ddwbl ai peidio?</p> <p>Adborth i'r dosbarth. Ydyn nhw i gyd wedi gwneud erthyliaid yn annerbyniol? Os ddim, pam ddim?</p> <p>Darllen yr erthygl ganlynol:  <a href="http://www.bbc.co.uk/news/uk-politics-41172426">http://www.bbc.co.uk/news/uk-politics-41172426</a></p> <p>Dadl: All Rees-Mogg arddel cred grefyddol yn unol â'r ddeddf naturiol, ac aros yn ddiuedd mewn materion yn ymwneud â chyfraith gwlad?</p>	<p><a href="http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/RresourceSingle.aspx?rId=2310">http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/RresourceSingle.aspx?rId=2310</a></p> <p>Ymatebion enghreifftiol o werslyfrau.</p> <p><b>CBAC Astudiaethau Crefyddol UG Athroniaeth Crefydd / Crefydd a Moeseg</b>, Richard Gray a Karl Lawson (Illuminate, 2017)</p> <p><b>Ethical Studies (Ail Argraffiad)</b> - Robert Bowie (Nelson Thornes, 2004) t.191</p> <p><a href="https://spaces.hightail.com/space/045hl">https://spaces.hightail.com/space/045hl</a></p> <p><a href="http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2015-16/15-16_18/unit07/cym/three-cases-of-abortion-the-irish-couple.html">http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2015-16/15-16_18/unit07/cym/three-cases-of-abortion-the-irish-couple.html</a></p>	<p>Asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu trwy ganlyniad y dasg drafodaeth mewn grŵp bach trwy adborth i'r dosbarth a dadansoddi syniadau ei gilydd.</p> <p>Asesiad ffurfiannol neu asesiad gan gyfoedion o syniadau trwy'r ddadl ar Rees-Mogg.</p>	<p>Darllen o'r gwrslyfr am y prif faterion (t 159-162) Llundain rhestr o'r prif faterion sydd angen eu hystyried.</p>
-----------	--	---	---	---	---

